



Proffesiynoli gweithlu gofal cymdeithasol Cymru

Llinell Gyntaf

Nid yw'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei werthfawrogi na'i staffio'n ddigonol o hyd. Mae mawr angen gwella proffil gofal cymdeithasol a chadw staff a lleihau nifer y swyddi gwag. Mae angen ymyriad brys i sefydlogi a gwella'r rhagolygon ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Prif Ofynion

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:

- Flaenoriaethu gofal cymdeithasol mewn cyllidebau i'r dyfodol.
- Cydnabod effeithiau Covid-19 ar ddarparwyr trydydd sector, a sicrhau bod rhwyd diogelwch ar gael i gefnogi'r sector i ddarparu gwasanaethau.
- Sefydlu tâl cyfartal rhwng gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Gwella'r gefnogaeth a'r adnoddau i ofalwyr, tra yn y proffesiwn ac yn y swydd, i sicrhau a gwella ansawdd gofal.
- Adolygu amodau a thelerau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal trigianol er mwyn gwella lefelau cadw staff a phroffil cyhoeddus y sector.
- Cynnal ymchwiliad i gysondeb ac ansawdd gofal cymdeithasol ledled Cymru er mwyn cyfyngu ar effeithiau'r 'loteri cod post'.

Ystadegau

- Yng Nghymru y llynedd, derbyniodd 75,741 o oedolion 18+ oed ofal cymdeithasol a newidiodd eu bywydau.
- Cyfradd trosiant o 13% mewn gofal cymdeithasol i oedolion yn 2019, sy'n cyfateb i 194 o ofalwyr.
- Ymunodd 217 aelod newydd o staff â'r gweithlu gofal cymdeithasol yn 2019.
- Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif y bydd prinder o 18 miliwn o weithwyr iechyd ledled y byd erbyn 2030.
- Amcangyfrifir y bydd gan 500,000 o oedolion 18+ oed salwch cyfyngol hirdymor yng Nghymru erbyn 2035, ac y bydd 312,000 o oedolion 65+ oed yn methu ymdopi ag o leiaf un gweithgaredd hunanofal ar eu pen eu hunain.

Cyd-destun

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am gofrestru a chasglu data gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru a chynrychioli'r gweithlu. Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu mewn sawl adroddiad megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 eu bod eisiau gweld trefn o ddarparu gofal cymdeithasol sy'n ataliol a rhagweithiol o ran gwasanaethau a gofal. Bydd hyn yn sicrhau poblogaeth sy'n iachach ac sy'n gallu cyfrannu i economi Cymru yn hirach.

Cyhoeddwyd 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2018 yn ymateb uniongyrchol i'r 'Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru' a gyhoeddwyd ynghynt yn y flwyddyn. Roedd hyn yn ymateb i heriau cynyddol mewn gofal cymdeithasol, megis cadw staff, adnoddau a recriwtio.

Roedd yr adolygiad yn disgrifio'r heriau newydd sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys poblogaeth yn heneiddio, newidiadau yn ffordd o fyw pobl, disgwyliaidau'r cyhoedd, technolegau meddygol a digidol newydd a datblygol, costau uwch mewn gwariant iechyd a gofal a phrinderau yn y gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif y bydd prinder o 18 miliwn o weithwyr iechyd ledled y byd erbyn 2030¹. Er mai gwledydd incwm is sy'n teimlo effeithiau hyn fwyaf, maent yn rhagweld y bydd gwledydd ar bob lefel o ddatblygiad cymdeithasol-economaidd yn cael anawsterau o ran addysg, cyflogaeth, lleoli, cadw a pherfformiad eu gweithlu.

Ers 2009, mae'r arian y pen ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn gostwng². O'r herwydd mae gofal cymdeithasol mewn argyfwng ariannu, ac mae llawer o'i wasanaethau ar fin cyrraedd torbwynt. Mae'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru³ yn canolbwyntio ar ymyriad cynnar a chynaliadwyedd, sy'n gorfod cael ei atgyfnerthu gan gyllid digonol a sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Mae angen i waith ataliol ac ymyriad cynnar fod yn seiliedig ar well dealltwriaeth o beth sy'n helpu cymunedau i gyflawni llesiant, a sut all Llywodraeth Cymru annog sefydliadau gofal cymdeithasol i weithio gyda'i gilydd.

Mae angen chwyldro gofal cymdeithasol ar Gymru – un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi'i ariannu'n iawn ac yn dathlu ei weithlu. Mae'r cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol wedi bod yn gostwng am fwy na degawd yng Nghymru, ac mae hyn yn arwain at wasanaethau anghyson, lefelau cadw staff gwael a phecynnau gofal annigonol ac araf yn cyrraedd.⁴

Cefndir

Mae gofal cymdeithasol yn wasanaeth hanfodol, ac mae'n rhoi annibyniaeth a rheolaeth i bobl anabl fyw eu bywyd fel maen nhw'n dewis. Yng Nghymru y llynedd derbyniodd 75,741 o oedolion oed ofal cymdeithasol a newidiodd eu bywydau⁵. Mae'r gwasanaeth hanfodol hwn yn galluogi unigolion i ddal ati i gymdeithasu a theithio a chadw eu hymdeimlad o unigolyddiaeth. Mae gofal cymdeithasol nid yn unig yn helpu pobl anabl gydag ymolchi, bwyta, gwisgo a thasgau hanfodol eraill, ond mae hefyd yn sicrhau eu bod yn cadw cysylltiad â'u cymunedau ac y gallant barhau'n weithgar yn y gymdeithas.

¹ GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru: CYMRU IACHACH: EIN STRATEGAETH GWEITHLU AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL. 2019.

² Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. 2017. Cydbwysedd cynnil? Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

³ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

⁴ Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. 2017. Cydbwysedd cynnil? Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

⁵ Gofal Cymdeithasol Cymru 2019. <http://www.socialcaredata.wales/IAS/themes/demandforcareandsupportservices/adults/tabular?view-Id=2212&geold=1&subsetId=>

Fel eu cydweithwyr yn y GIG, mae staff gofal cymdeithasol yn gweithio'n ddiflino i ofalu fod eu trigolion a chleifion yn derbyn y gofal gorau posib. Fodd bynnag, nid yw'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei werthfawrogi na'i staffio'n ddigonol o hyd. Mae mawr angen gwella proffil gofal cymdeithasol a chadw staff tra'n lleihau prinderau.

Yn 2018, dywedodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Y Senedd yn eu hymchwiliad, *'Gofalu am ein dyfodol: Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran gofalwyr'*:

“i gymaint o bobl y clywsom ganddynt, mae'r Ddeddf wedi methu gwneud unrhyw argraff wirioneddol ar eu bywydau. Mae problemau gydag asesiadau, gwasanaethau amhriodol a gwybodaeth a chyngor anghyson wedi gwneud i ofalwyr ddweud wrthym eu bod yn teimlo y cawsant eu hanghofio, nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon ac yn anobeithiol.”⁶

Mae lefelau trosiant staff yng Nghymru yn dal yn gymharol uchel; fe'u cyfrifwyd yn 13% yn 2019⁷, sef 194 o ofalwyr yn gadael y proffesiwn. Mae hyn yn destun pryder o'i gymharu â'r niferoedd yn ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol yn yr un flwyddyn, a gyfrifwyd yn 217 o aelodau staff newydd. Mae hyn hefyd yn cael effaith negyddol ar unigolion sy'n derbyn gofal cymdeithasol, sy'n dweud mai perthnasoedd a pharhad gofalwyr yw rhai o elfennau pwysicaf gofal cymdeithasol o ansawdd da⁸. Gan fod y lefelau trosiant mor uchel, a lefelau cadw staff yn isel, mae mawr angen ymyriad i sefydlogi a gwella'r rhagolygon ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Amcangyfrifir y bydd gan 500,000 o oedolion 18+ oed salwch cyfyngol hirdymor yng Nghymru erbyn 2035, ac y bydd 312,000 o oedolion 65+ oed yn methu ymdopi ag o leiaf un gweithgaredd hunan-ofal ar eu pen eu hunain⁹. Er mwyn gallu ymateb i'r galw cynyddol a chyson, mae angen i'r sector gofal cymdeithasol allu bod yn hyblyg, ac addasu i newidiadau a ffyrdd newydd o weithio. Mae effeithiau Covid-19 wedi pwysleisio fwy fyth yr angen am fwy o eglurder i'r sector a'r pwysau cynyddol ar staff i ddiwallu'r galw.

Cynhaliodd Leonard Cheshire arolwg ar effeithiau Covid-19 ar bobl anabl, ac un o'r prif negeseuon a ddaeth allan o hynny oedd yr ofn y caiff oriau gofal cymdeithasol eu torri oherwydd prinderau, a diffyg arian¹⁰. Ni ddylai pobl anabl yng Nghymru orfod poeni am eu gwasanaethau gofal cymdeithasol; llai fyth yn ystod pandemig bydeang. Os yw Cymru'n mynd i gyrchu'r nod o 'Gymru iachach' fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2016), rhaid mynd i'r afael â'r angen i flaenoriaethu gofal cymdeithasol.

Yn yr un modd, argymhellodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn eu Strategaeth 2018 – 2021 fod 'Angen i ofal cymdeithasol fod yn flaenoriaeth wleidyddol ac ariannol uwch i Lywodraeth Cymru'. Bydd cyllido gofal cymdeithasol yn ateb ataliol a rhagweithiol i boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru.

⁶ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Gofalu am ein dyfodol: Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran gofalwyr. 2019. Dolen: <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12887/cr-ld12887%20-e.pdf>

⁷ Adroddiad Cynllunio Gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol, 2018 - 2019. Dolen: https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/COM07000_Social_Worker_Workforce_Planning_2018_19_eng_Final.pdf

⁸ Adroddiad Mesur y Mynydd. 2019. Dolen: <http://mtm.wales/ckfinder/userfiles/files/MtM%20Final%20Report%20March%2019%202019.pdf>

⁹ Gofal Cymdeithasol Cymru. 2019. Dolen: <http://www.socialcaredata.wales/IAS/themes/demandforcareandsupportservices/adults/tabular?viewId=2212&geoid=1&subsetId=>

¹⁰ Cynhaliwyd Arolwg Covid-19 gan Leonard Cheshire ledled y DU yn ystod yr argyfwng. Gwnaed yr ymatebion iddo gan bobl anabl eu hunain a'u gofalwyr. Cyhoeddir y canfyddiadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.